

Modelau damcaniaethol o addysgu trawsgwricwlaidd sy'n ymgorffori llythrennedd, rhifedd a cymhwysedd digidol fel cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd

1601464

Beth yw 'Cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd'?

- Set o gymwyseddau a sgiliau sy'n wraidd i'r cwricwlwm; hanfodol i ddyfodol dysgwyr Cymru i ymgymryd yn llwyddiannus a hyderus yn y byd modern. (Donaldson, 2015.)
- Dylai tri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd fod wrth wraidd pob pwnc: "Felly mae'r Adolygiad yn argymhell y dylai llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fod yn Gyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd i'r holl athrawon a phobl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.," (Donaldson, 2015:40)
- Llythrennedd; 3 diben rhyng-ddibynnol sy'n ein galluogi i gyfathrebu'n effeithiol.
- Rhifedd - dull o ymgorffori sgiliau rhifyddol mewn ffordd drawsgwricwlaidd, byd go iawn.
- Cymhwysedd digidol - "sgiliau sydd eu hangen ar ddysgwyr i lwyddo mewn byd cynyddol ddigidol." (LIC, 2016)

Dadl?

- "The clash between our technological culture & our biological heritage is damaging children's ability to think, learn & behave." (Palmer, 2007,t.3)
- Plant yn cael eu cyflwyno i ddarllen ac ysgrifennu "cyn eu bod yn barod." (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003, t.6.)
- "Diffyg hunanhyder gan athrawon yn perthyn i ddiffyg gwybodaeth pwnc a'r methiant i gyfuno dulliau dysgu ac addysgu perthnasol." (Kerr, 2000)



Y Ffordd Ymlaen

- Cynhyrchu Cynllun Datblygu Ysgol i sicrhau'r canlynol;
- Gofynna'r modelau hyn am wybodaeth pwnc digonol i'w haddysgu. Gwella sgiliau athrawon felly wrth gynnig hyfforddiant parthed addysgu'n drawsgwricwlaidd.
- Sefydlu "ethos a diwylliant cynhwysol" (Estyn, 2018, t.5) o fewn yr ysgol sy'n annog athrawon i ofyn am help e.e. Gwybodaeth pwnc, cynllunio a.y.b.
- Ystyried costau ynghlwm â'r modelau e.e. fwy o gyfleoedd i ddysgu drwy brofiad; ymweliadau. Hefyd y gost o ddanfôn athrawon ar hyfforddiant.
- Cynnwys rhieni yn y broses addysgu – "sicrhau bod ei hysgol yn groesawgar i deuluoedd, a chymryd camau i ddod i adnabod ei theuluoedd." (LIC, 2015, t.16)

Pam addysgu'n drawsgwricwlaidd?

- "Mae ansawdd addysgu yn amrywio gormod ar draws yr ysgol ac nid yw pob athro yn cynnig digon o her i ddisgyblion, nac yn cyflwyno gwersi sy'n bodloni anghenion disgyblion yn llwyddiannus." (Estyn, 2018, t.34)
- "Mae'r arfer orau mewn ysgolion wedi'i strwythuro'n ofalus i wella ac adeiladu ar fedrau disgyblion mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol." Estyn (2018, t.5)
- Dywed Estyn (2015, t.6) y "dylai athrawon fanteisio ar y cyfleoedd sy'n digwydd yn naturiol yn y cwricwlwm i atgyfnerthu dysgu mewn llythrennedd a rhifedd."

Model Hierarchaidd

"Hierarchical cross-curricular methods aim at achieving progress in one discipline by using aspects of another" (Barnes, 2015, t.56)

Nod y wers ar gyfer y Cyfnod Sylfaen; Blwyddyn 2
Datblygu "ymwybyddiaeth o ddiwylliannau gwahanol" (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.10) e.e. Diwali drwy ysgrifennu rhestr "sy'n briodol i'r pwrpas" (YAAAS, 2015, t.25) er mwyn creu 'barti' i ddathlu'r wyl a "defnyddio gwahanol gyfuniadau o arian i dalu am eitemau hyd at £1" (YAAAS, 2015, t.38). Disgwyl iddynt "defnyddio technoleg ddigidol i gyfathrebu a chysylltu ag eraill" (LIC, 2016) drwy gynllunio cylchlythyr i rannu a rhieni a staff.



(Chalk, 2018)

Personol, Cymdeithasol a Diwylliannol

> Creu rhestr siopa a phrynu nwyddau i greu 'barti' i ddathlu Gwyl Diwali. Danfon cylchlythyr digidol i hysbysu rhieni a staff o'r ddigwyddiad.

Mathemateg

> Dysgu am werth darnau arian; adio cyfansymiau ac ymarfer yn 'siop' y dosbarth .

(Barnes, 2015, t.67.)

Cryfderau'r model

- Mabwysiadu dealltwriaeth gref o bwnc wrth ddefnyddio sgiliau o bwnc arall (Barnes, 2015, t.57)
- Medru integreiddio'r celfyddydau'n haws e.e. Dysgu rhifau a cherddoriaeth yn mynd llaw yn law
- Athrawon sydd â gwybodaeth pwnc gwan parthed maes dysgu yn medru'u ddysgu'n hwylus â'r model yma – cefnogaeth o bwnc arall.

Cyfyngiadau'r model

- Nid yw sgiliau yn y pwnc israddol o reidrwydd yn gwell – ond dull dydnt i ddysgu rhywbeth newydd
- "weaker contexts, new art skills, knowledge and attitudes may not be learned" (Barnes, 2015, t.57)

Model Thema Seiliedig

"Theme based approaches use a theme to generate exploration through the eyes of several different subjects" (Barnes, 2015, t.69)

Thema

Blwyddyn ar y fferm
CS: Bl.2

Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Dewis "math o ysgrifennu sy'n briodol" e.e. Dyddiadur (YAAAS, 2015, t.25) i gannodi "erfennau'r gwahanol lythrennau" ar anifeiliad a bywyd y fferm (YAAAS, 2015, t.44).
- Cofnodir fesul "misoedd y flwyddyn" (YAAAS, 2015, t.35).

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

- "Ymchwilio i sut y mae lleoedd yn newid" gan adnabod y gwahaniaethau rhwng ffordd o fyw mewn gwahanol gynffwrdd" (YAAAS, 2015, t.43) e.e. y tywydd, lymhorau a'r dull fermio trwy "cyfrannu i drafodaeth" wrth ymateb i gwestiynau a gynllunwyd ar sail hetiau de Bono.
- "Archwilio'r celfyddydau creadigol a mynegiantol yng Nghymru" (ACCAC, 2003, t.4) trwy astudio un o luniau Chris Chalk 'nod to the past' yn ogystal â "defnyddio allweddieriau i chwilio am wybodaeth benodol". (LIC, 2016)
- "Dangos eu bod yn deall yr hyn y maent wedi ei glywed a'i ddarllen drwy holi cwestiynau perthnasol i ddod o hyd i wybodaeth benodol." (YAAAS, 2015, t.16)


Datblygiad Creadigol

- Rhoi'r cyfle i blant "datblygu a defnyddio eu dealltwriaeth o liwiau, llinellau, tön, gwead, patrwm, siop a fwr" (YAAAS, 2015, t.49) er mwyn creu darn o geir ar sail bortreadau anifeiliad fferm Angela Davidson.
- Disgwyl iddynt "mynegi barn, gan roi rhesymau a chynning atebion priodol i gwestiynau" (YAAAS, 2015, t.14) a chodwyd wrth drafod y gwaith.
- Bydd gofyn iddynt "defnyddio technoleg ddigidol i gyfathrebu a chysylltu ag eraill yn lleol ac yn byd-eang, e.e. Ffotograffau" (LIC, 2016) i gyflwyno'u gwaith i rieni.

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiol Ddiwylliannol

- Cynigir "gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt ddechrau deall sut y gallant warchod yr amgylchedd" (YAAAS, 2015, t.10) trwy "archwilio materion cyfoes sy'n effeithio ar fywydau bobl yng Nghymru" (ACCAC, 2003, t.5) e.e. gor-ddfnyddio plastig; pecynnu caws, laeth ac ati.
- Rhoi'r cyfle iddynt "gwirandao ar eraill gan garchilio'r wylio" (YAAAS, 2015, t.15) yn ystod trafodaeth ar effeithiau e.e. plastig ar y byd.
- O hyn, cynnal arolwg ar sail y nifer sy'n atgylchu gan "cofnodi data a gesgltir mewn amrywiol o fformatau priodol, e.e. Tablau" (LIC, 2016)

(Barnes, 2015, t.70.)



(The British School Staff Development, 2014)

Cryfderau'r model

- Integreiddio nifer o bynciau a sgiliau er mwyn annog dealltwriaeth o thema berthnasol
- Modd i blant gynllunio ar y cyd ag athrawon – mewnbwn syniadau "This helps pupils to take ownership of their learning and sustains their interest." (Estyn, 2017, t.67)
- Mwy o gyfle i ddysgu drwy brofiadau a thu hwnt i'r ystafell dosbarth gan feddwl yn unigol a meithrin sgiliau cwestiynu.

Cyfyngiadau'r model

- Rhaid athro sicrhau gwybodaeth pwnc da er mwyn integreiddio'r pynciau i'r thema i sicrhau ei bod yn ysgogi plant.
- "tenuous links and unclear aims limited the learning" (Barnes, 2015, t.69)
- Rhaid dewis thema'n ofalus er mwyn sicrhau llwyddiant